



Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yw'r newid mwyaf i gyfraith tai yng Nghymru, a dechreuodd ar **1 Rhagfyr 2022**.

Mae'r Ddeddf yn golygu y bydd newidiadau i gyfreithiau tenantiaeth yng Nghymru i'w gwneud yn symlach ac yn haws rhentu cartref a rhoi mwy o sicrwydd i denantiaid. Er enghraifft, cynnydd yn y cyfnod rhybudd 'dim bai' o ddau i chwe mis a mwy o amddiffyniad rhag troi allan.

Rhaid i landlordiaid hefyd wneud yn siŵr bod cartrefi yn ddiogel i fyw ynddynt (a elwir yn **Ffitrwydd i fod yn Gartref**) e.e. bod â synwryddion mwg a charbon monocsid sy'n gweithio. * I ddarllen mwy am Ffitrwydd i fod yn Gartref [cliciwch yma](#).

O dan y gyfraith newydd, bydd tenantiaid yn dod yn 'ddeiliaid contract' a bydd cytundebau Tenantiaeth yn cael eu disodli gan '**Gontract Meddiannaeth**'. Mae Contract Meddiannaeth rhwng y landlord, sy'n berchen ar y tŷ/fflat a chi, **Deiliad y Contract** sy'n ei rentu.

Contract Safonol: mae hwn yn gontract ar gyfer cartrefi sy'n cael eu rhentu gan landlordiaid preifat (sector rhentu preifat – SRhP) ond, weithiau, gellir ei ddefnyddio gan gynghorau a LCC (Cymdeithasau Tai) ar gyfer rhai mathau o dai (e.e. llety â chymorth).

Mae'n rhaid i'ch landlord roi 'Contract Meddiannaeth' i chi, a fydd yn disodli'ch tenantiaeth neu gytundeb trwydded: bydd hwn yn dweud beth y gallwch chi, a'r landlord, ei wneud a'r hyn na allwch ei wneud.

Nodyn pwysig: Os oeddech yn denant gyda'r landlord cyn 1 Rhagfyr 2022, bydd yn rhaid i'r landlord roi 'contract meddiannaeth' i chi erbyn 1 Mehefin 2023 fan bellaf. Ond os ydych yn ddeiliad contract sy'n symud i mewn i'ch cartref ar neu ar ôl 1 Rhagfyr 2022, ac felly mae gennych gontract meddiannaeth newydd sbon, mae'n rhaid i'r landlord roi'r datganiad ysgrifenedig i chi o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad y byddwch yn symud i mewn.)



Bydd y Contract Meddiannaeth yn cynnwys:

- **Materion Allweddol:** Er enghraifft, enwau'r partïon a chyfeiriad yr eiddo. Rhaid cynnwys y rhain ym mhob contract.
- **Telerau Sylfaenol:** Ymdrin ag agweddau pwysicaf y contract, hawliau a chyfrifoldebau e.e. cyfrifoldebau'r landlord am atgyweiriadau.
- **Telerau Ategol:** Delio â'r materion mwy ymarferol, o ddydd i ddydd, er enghraifft, y gofyniad i hysbysu'r landlord os yw'r eiddo yn mynd i fod yn wag am bedair wythnos neu fwy.
- **Telerau Ychwanegol:** Gwybodaeth arall, er enghraifft a ganiateir i chi gael anifeiliaid anwes.

Gellir rhoi contractau fel copi wedi'i argraffu neu, os yw deiliad y contract yn cytuno, yn electronig. Dylech lofnodi'r contract os ydych yn hapus â'r hyn y mae'n ei ddweud. *Am ragor o wybodaeth am yr hyn y dylid ei gynnwys mewn Contract Meddiannaeth [cliciwch yma](#).

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar dudalennau gwe Rhentu Cartrefi Llywodraeth Cymru (<https://www.llyw.cymru/mae-cyfraith-tai-yn-newid-rhentu-cartrefi>) neu cysylltwch â'ch landlord am ragor o wybodaeth.



Mae'r ddolen i fersiwn Hawdd ei Darllen o'r wybodaeth hon [yma](#).